Career Choices Dewis Gyrfa – Polisi a Safonau'r Gymraeg

1. Cyflwyniad

Un o is-gwmnïau ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru yw Career Choices Dewis Gyrfa Cyf (CCDG), sy'n masnachu fel Gyrfa Cymru - Careers Wales. Fe'i sefydlwyd ar 1 Ebrill 2013 ac mae'r cwmni'n darparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd annibynnol, diduedd a dwyieithog yng Nghymru. Cyfeirir at CCDG yn ôl ei enw masnachu drwy gydol y polisi hwn.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn cynnwys darpariaeth i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a datblygu safonau o ran y Gymraeg.

Mae safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Gyrfa Cymru wedi'u rhannu'n gategorïau:

- Cyflenwi Gwasanaeth
- Llunio Polisïau
- Safonau Gweithredu
- Cadw Cofnodion

O 1 Ebrill 2018 bydd Safonau'r Gymraeg ar Lunio Polisïau, Prosesau Gweithredol a Chadw Cofnodion yn berthnasol i Gyrfa Cymru dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir i Gyrfa Cymru yn sgil ei gylch gwaith blynyddol fodloni gofynion y safonau Cyflenwi Gwasanaeth gan eu bod yn berthnasol i Lywodraeth Cymru. Mae'r Safonau hyn yn disodli ein Cynllun Iaith Gymraeg.

2. Nodau

Diben y polisi hwn yw amlinellu sut y bydd Gyrfa Cymru yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod Gyrfa Cymru yn

- Gweithredu yn unol â'r egwyddor sylfaenol a amlinellir ym Mesur y Gymraeg (Cymru), sef i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Cynnig gwasanaethau i staff a'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- Ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau
- Ystyried ei brosesau gweithredol a chadw cofnodion o ran y Gymraeg
- Ceisio darparu cyfleoedd sy'n annog ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd.

3. Atebolrwydd

Mae'r Cyfarwyddwyr unigol o fewn CCDG a Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn atebol am y polisi hwn. Mae unrhyw drafodaethau ynghylch effeithiau strategaethau a pholisïau ar yr iaith Gymraeg felly yn rhan o broses gwneud penderfyniadau'r uwch dîm rheoli. Dyrannwyd cyfrifoldeb am safonau unigol i wahanol Benaethiaid Adrannau yn unol â'u meysydd cyfrifoldeb cyfredol.

Safon	Cyfrifoldeb
Gohebiaeth Ysgrifenedig	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau
Galwadau ffôn i Gyrfa Cymru a pheiriannau ateb	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau
Galwadau ffôn a wneir gan Gyrfa Cymru	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau
Cyfarfodydd a drefnir gan Gyrfa Cymru	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau
Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir gan Gyrfa Cymru	Pennaeth Digidol a Chyfathrebu
Cyhoeddi dogfennau a defnyddio ffurflenni	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau
Gwefan Gyrfa Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol	Pennaeth Digidol a Chyfathrebu
Cyfrifiaduron i'r cyhoedd	Pennaeth TGCh
Arwyddion	Pennaeth Digidol a Chyfathrebu
Gwasanaeth Derbynfa	Cyfarwyddwr Darparu a Datblygu, Pennaeth Cyngor Cyflogaeth
Prosesau Tendro	Cyfarwyddwr Adnoddau a Thrawsnewid, Pennaeth Cyllid ac Ystadau
Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg	Pennaeth Digidol a Chyfathrebu, Pennaeth Cyngor Cyflogaeth
Hunaniaeth gorfforaethol	Cyfarwyddwr Adnoddau a Thrawsnewid, Pennaeth Digidol a Chyfathrebu, Pennaeth Cyllid ac Ystadau
Sustemau sain cyhoeddus	Pennaeth Digidol a Chyfathrebu, Pennaeth TGCh
Llunio Polisiau	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau
Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau
Cwynion	Pennaeth Ansawdd a Chynllunio
Materion Disgyblu	Pennaeth Datblygu Pobl
Cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth a'r fewnrwyd	Pennaeth TGCh
Datblygu sgiliau iaith	Pennaeth Datblygu Pobl
Prosesau recriwtio	Pennaeth Datblygu Pobl
Arwyddion Mewnol a chyhoeddiadau sain	Pennaeth Cyngor Cyflogaeth, Pennaeth Cyllid ac Ystadau, Pennaeth TGCh
Cadw Cofnodion	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau

Atodiad 1

Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Gyrfa Cymru

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
1	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	Rydym yn croesawu llythyrau a gohebiaeth electronig yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a ddaw i law yn Gymraeg os bydd angen ateb. Ymdrinnir â gohebiaeth yn Gymraeg gan ddilyn yr un amserlen a safonau â gohebiaeth yn Saesneg.	30/3/2016
2	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymnraeg ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi – (a) cadw cofnod o ddymuniad A (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac (c) anfon unrhyw ffurfelnni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Pan fyddwn yn gohebu ag unigolyn am y tro cyntaf, bydd yr ohebiaeth, gan gynnwys yr holl atodiadau, yn cael ei hanfon yn ddwyieithog gan ofyn i'r derbynnydd ym mha iaith yr hoffent ohebu â ni. Pan fydd yr iaith a ffefrir yn hysbys, bydd hyn yn cael ei gofnodi. O hynny ymlaen, bydd yr ohebiaeth a anfonir at y derbynnydd yn yr iaith o'i ddewis.	30/3/2016
3	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un alewyd (er enghraifft , rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolynhynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os – (a)yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad , a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny; (b)yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad , a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.	Pan anfonir gohebiaeth at ddau unigolyn sy'n byw yn yr un tŷ am y tro cyntaf, anfonir yr ohebiaeth yn ddwyieithog gan ofyn i'r derbynnydd/derbynwyr pa iaith a ffefrir ganddynt ar gyfer gohebu â ni. Pan fydd eu dewis iaith yn hysbys, bydd hyn yn cael ei gofnodi. Bydd unrhyw ohebiaeth a anfonir o hynny ymlaen at bob unigolyn yn eu dewis iaith.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
4	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	Bydd gohebiaeth a anfonir at nifer o bobl yn cael ei hanfon yn ddwyieithog oni bai bod dewis iaith pob derbynnydd yn hysbys. Bydd llythyrau a chylchlythyrau safonol a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog; ein harfer fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.	30/3/2016
5	Cyflenwi Gwasanaethau	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	Pan na fydd dewis iaith unigolyn yn hysbys, er enghraifft, wrth anfon llythyrau safonol, bydd yr ohebiaeth ysgrifenedig at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	30/3/2016
6	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ohebiaeth yn dilyn yr un safonau. Mae ein deunydd ysgrifennu, gan gynnwys teitlau, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost a logos yn ddwyieithog.	30/3/2016
7	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddatgan— (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	Bydd unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig swyddogol a anfonwn yn cynnwys y frawddeg isod:- 'Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg'. Bydd canllawiau i staff yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen Gymraeg ar y fewnrwyd i gynorthwyo a chefnogi staff i ymdrin â gohebiaeth yn Gymraeg.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
8	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Cyswllt Gyrfa Cymru yw gwasanaeth ffôn cyhoeddus CCDG. Atebir pob galwad gyda neges awtomataidd ddwyieithog ac yna cynigir dewis i sgwrsio yn Gymraeg neu Saesneg.	30/3/2016
9	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Cyswllt Gyrfa Cymru yw gwasanaeth ffôn cyhoeddus CCDG. Cyferchir pob galwad gyda neges awtomataidd ddwyieithog ac yna cynigir y dewis i sgwrsio yn Gymraeg neu Saesneg.	30/3/2016
10	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).	Yn ystod oriau swyddfa, bydd teleffonyddion sy'n medru'r Gymraeg ar gael ar Cyswllt Gyrfa Cymru i ymdrin ag ymholiadau. Os nad yw aelod o staff yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog, bydd yn egluro'r sefyllfa i'r galwr ac yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg. Os nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg ar gael, gall y galwr ddewis cael siaradwr Cymraeg i'w galw yn ôl, cyflwyno'r cais/ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg (e-bost/sgwrs ar-lein) neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg. Byddwn yn darparu cyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad y gellir trosglwyddo galwadau iddynt.	30/3/2016
12	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd unrhyw rifau llinell gymorth a gwasanaethau canolfan alwadau sy'n darparu gwybodaeth, gwasanaethau neu gefnogaeth i'r cyhoedd yn cael eu darparu'n ddwyieithog ac wedi'u hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
13	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	Mae Gyrfa Cymru yn gweithredu un prif rif ffôn sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r galwr – gwasanaeth Cyswllt Gyrfa Cymru.	30/3/2016
14	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Pan fyddwn yn cyhoeddi rhif ffôn sy'n hysbysebu ein gwasanaethau, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog gan nodi ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg a Saesneg.	30/3/2016
15	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	Bydd unrhyw ddangosyddion perfformiad ar gyfer galwadau Cymraeg a Saesneg yr un fath.	30/3/2016
16	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	Mae gwasanaeth ateb dwyieithog ar ein prif rif ffôn gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf ac yna'r neges Saesneg a gall y galwr adael neges yn ei ddewis iaith. Mae'r gwasanaeth ateb ar gyfer llinell Cyswllt Gyrfa Cymru yn ddwyieithog. Bydd pob galwad yn cael ei hateb yn newis iaith y galwr.	30/3/2016
17	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Bydd ein holl rifau ffôn sy'n darparu neges awtomataidd i'r cyhoedd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
18	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg)	Ar gyfer galwadau i rifau uniongyrchol, bydd y staff sy'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn cael eu hannog i recordio neges llais dwyieithog. Os nad yw aelod o staff yn gallu ymdrin â'r alwad yn Gymraeg, byddant yn egluro hynny i'r galwr ac yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg yn ddi-oed. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith, bydd y manylion cyswllt yn cael eu nodi a byddwn yn ffonio'r galwr yn ôl cyn gynted ag y bydd siaradwr Cymraeg ar gael.	30/3/2016
20	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.	Bydd pob galwad at ein rhif 0800 cyffredinol yn cael ei hateb gyda chyfarchiad dwyieithog, yn Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg.	30/3/2016
21	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Pan fyddwn yn ffonio unigolyn am y tro cyntaf, gofynnir i'r unigolyn ym mha iaith y mae'n dymuno derbyn galwadau gennym. Pan fydd dewis iaith yr unigolyn yn hysbys, bydd yn cael ei chofnodi. Bydd y galwadau o hynny ymlaen yn newis iaith yr unigolyn.	30/3/2016
22	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	Bydd gan ein holl systemau ffôn awtomataidd wasanaeth awtomataidd dwyieithog.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
24	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw	Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd gydag aelod o'r cyhoedd, byddwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn gwirio unrhyw gofnodion perthnasol a gedwir gennym (e.e. ar gyfer y cleient) i weld a yw'r person wedi nodi dewis iaith. Byddwn yn ei wahodd i'r cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg os yw ei ddewis iaith yn hysbys. Os nad yw'n hysbys, bydd y gwahoddiad yn ddwyieithog a bydd yn cynnwys brawddeg ynghylch yr opsiynau iaith.	30/3/2016
24A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Byddwn yn anelu at ddarparu siaradwr Cymraeg rhugl i fynychu cyfarfodydd gyda'r rhai sy'n dymuno cynnal cyfarfod yn Gymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfodydd. Bydd rhestr o gysylltiadau ar gael ar fewnrwyd y cwmni.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
26	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd gydag aelod o'r cyhoedd, byddwn yn cynnig y dewis i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn gwirio unrhyw gofnodion perthnasol a gedwir gennym (e.e. ar gyfer y cleient) i weld a yw'r person wedi nodi dewis iaith. Byddwn yn ei wahodd i'r cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg os yw ei ddewis iaith yn hysbys. Os nad yw'n hysbys, bydd y gwahoddiad yn ddwyieithog a bydd yn cynnwys brawddeg ynghylch yr opsiynau iaith.	30/3/2016
26A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod- (a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ("A") a wahoddwyd, a (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	Byddwn yn anelu at ddarparu siaradwr Cymraeg rhugl i fynychu cyfarfodydd gyda'r rhai sy'n dymuno cael cyfarfod yn Gymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfodydd. Bydd rhestr o gysylltiadau ar gael ar fewnrwyd y cwmni.	30/3/2016
27	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Bydd pob gwahoddiad i gyfarfodydd yn cael ei anfon yn ddwyieithog a bydd yn gofyn i bob person ein hysybsu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
27A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	Byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfodydd lle mae o leiaf 10% o'r unigolion a wahoddwyd wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Bydd rhestr o gysylltiadau ar gael ar fewnrwyd y cwmni.	30/3/2016
27D	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Mewn unrhyw gyfarfod lle mae pawb a wahoddwyd wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn anelu at sicrhau bod y staff a fydd yn mynychu'r cyfarfod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, heb gymorth cyfieithu ar y pryd. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn trefnu bod adnodd cyfieithu ar y pryd ar gael. Bydd rhestr o gysylltiadau ar gael ar fewnrwyd y cwmni.	30/3/2016
29	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi - (a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) hysbysu'r unigolyn (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â llesiant un neu fwy o'r unigolion a wahoddwyd, byddwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn anelu at ddarparu siaradwr Cymraeg rhugl i fynychu cyfarfodydd gyda'r rhai y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg neu drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd rhestr o gysylltiadau ar gael ar fewnrwyd y cwmni.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
29A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod - (a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod, (b) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, ac (c) os oes o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	Byddwn yn anelu at ddarparu siaradwr Cymraeg rhugl i fynychu cyfarfodydd gyda'r rhai y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg neu drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd rhestr o gysylltiadau ar gael ar fewnrwyd y cwmni.	30/3/2016
30	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, bydd yr holl hysbysiadau a'r gwahoddiadau yn ddwyieithog, a byddant yn nodi bod croeso i unrhyw un siarad Cymraeg neu Saesneg yn y cyfarfod. Byddwn yn anelu at sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn mynychu'r cyfarfod, i annerch neu gyfrannu at y cyfarfod. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ym mhob cyfarfod cyhoeddus agored.	30/3/2016
31	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	Bydd pob gwahoddiad i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn cael ei anfon yn ddwyieithog.	30/3/2016
32	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi - (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Pan wahoddir pobl i siarad mewn cyfarfod a drefnir gennym sy'n agored i'r cyhoedd, byddwn yn gofyn i bob siaradwr pa iaith yr hoffent ei defnyddio yn y cyfarfod. Os bydd siaradwr yn ein hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
33	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg - (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.	Ar gyfer ein holl gyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus agored, hysbysir y rhai sy'n bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a byddwn yn tynnu sylw at y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg. Byddwn yn anelu at sicrhau bod staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn mynychu'r cyfarfodydd, i annerch neu gyfrannu atynt.	30/3/2016
34	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Bydd ein holl ddeunydd ysgrifenedig/arddangosfeydd a arddangosir mewn cyfarfodydd yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar y chwith.	30/3/2016
35	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	Pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i drefnu digwyddiad cyhoeddus, byddwn yn ceisio hyrwyddo a rhannu arferion dwyieithog da. Bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â gofynion y Safonau fel yr amlinellir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio.	30/3/2016
36	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).	Pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i drefnu digwyddiadau cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod ein mewnbwn yn cydymffurfio â gofynion y Safonau fel yr amlinellir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer unrhyw wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
37	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Bydd holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hysbysebu Gyrfa Cymru yn cael eu cynhyrchu yn y ddwy iaith naill ai'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar y chwith neu bydd y ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd; neu bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Bydd y naill fersiwn a'r llall yn cynnwys neges yn nodi bod y cyhoeddiad ar gael hefyd yn yr iaith arall.	30/3/2016
38	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Bydd holl ddeunydd Gyrfa Cymru y byddwn yn ei arddangos yn gyhoeddus yn cael ei arddangos yn y ddwy iaith naill ai yn ddwyieithog, neu gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar y chwith neu bydd yr un mor amlwg (e.e. fformat "wyneb i waered") neu ar wahân yn Gymraeg a Saesneg os oes rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân am resymau ymarferol. Bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Bydd y naill fersiwn a'r llall yn cynnwys neges yn nodi bod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.	30/3/2016
40	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg.	Bydd dogfennau a gaiff eu llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
47	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen sydd ar gael i'r cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg— (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.	Bydd dogfennau a gaiff eu llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith.	30/3/2016
48	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Bydd y ddwy fersiwn o'r holl ddogfennau a gaiff eu llunio yn dwyieithog neu ar wahân yn Gymraeg a Saesneg o'r un maint ac ansawdd.	30/3/2016
49	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	Bydd dogfennau Cymraeg a Saesneg a gaiff eu llunio ar wahân yn nodi bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg.	30/3/2016
50	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	Bydd ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu llunio yn Gymraeg a Saesneg.	30/3/2016
50A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	Os bydd rhaid cyhoeddi ffurflenni ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd, byddant ar gael ar yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch â'i gilydd. Bydd y naill a'r llall yn cynnwys neges sy'n nodi bod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
50B	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	Bydd yr holl ffurflenni at ddefnydd y cyhoedd ar gael yn y ddwy iaith. Bydd yr amserlenni a'r amseroedd ymateb ar gyfer cyflwyno ffurflenni yr un fath ar gyfer y ddwy iaith.	30/3/2016
51	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	Bydd gwybodaeth sy'n cael ei mewnosod ar ffurflenni yn cael ei mewnosod yn Gymraeg a Saesneg. Ein harfer fydd cyhoeddi ffurflenni yn newis iaith y cwsmer.	30/3/2016
52	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.	Mae pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	30/3/2016
55	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	Mae pob tudalen ar ein gwefan yn rhoi opsiynau iaith i'r defnyddiwr gan ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg/Saesneg gyfatebol.	30/3/2016
56	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar ein gwefan ar gael naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.	30/3/2016
57	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.	Bydd yr holl apiau a gyhoeddir gan Gyrfa Cymru ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg a Saesneg.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
58	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae ein holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (e.e. Twitter a Facebook) ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y staff sy'n gweithredu cyfrifon Twitter unigol yn gwneud hynny yn eu dewis iaith gyda rhai o'n staff yn gweithredu cyfrifon yn Gymraeg yn unig.	30/3/2016
59	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	Ein harfer yw ymateb yn iaith y neges wreiddiol neu'n ddwyieithog.	30/3/2016
60	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.	Bydd unrhyw beiriannau a fydd ar gael i'r cyhoedd yn gweithio'n llawn yn Gymraeg a Saesneg.	30/3/2016
61	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Bydd ein holl arwyddion parhaol neu dros dro, ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael ei drin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.	30/3/2016
62	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Ar ein holl arwyddion, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos uwchben y testun Saesneg neu ar y chwith er mwyn sicrhau ei bod yn debygol y bydd y Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf.	30/3/2016
63	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Bydd y testun ar arwyddion a gynhyrchir yn fewnol yn cael ei wirio gan ein cyfieithwyr allanol o ran cywirdeb mewn perthynas ag ystyr a mynegiant neu gan unigolion dynodedig o fewn y cwmni.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
64	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.	Ar yr holl ddesgiau yn ein derbynfeydd cyhoeddus, byddwn yn croesawu ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith i ymdrin ag aelod o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, gelwir ar gydweithiwr sy'n medru'r Gymraeg i ymdrin â'r ymholiad yn ddi-oed.	30/3/2016
67	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	Mae arwydd yn cael ei arddangos yn ein derbynfeydd cyhoeddus yn datgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.	30/3/2016
68	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo llinyn gwddf neu fathodynnau iaith i nodi eu bod yn medru'r Gymraeg.	30/3/2016
69	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	Bydd ein holl hysbysiadau a gyhoeddir neu a arddangosir yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar y chwith. Os byddant yn cael eu cyhoeddi ar wahân am resymau ymarferol, byddant o'r un maint ac amlygrwydd a byddant ar gael ar yr un pryd.	30/3/2016
70	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Pan fyddwn yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar y chwith er mwyn sicrhau ei bod yn debygol y bydd y Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf.	30/3/2016
71	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnig grantiau.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
72	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnig grantiau.	30/3/2016
72A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnig grantiau.	30/3/2016
74	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnig grantiau.	30/3/2016
75	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnig grantiau.	30/3/2016
76	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	Bydd ystyriaethau ynghylch y Gymraeg yn cael eu cynnwys fel y bo'n briodol mewn manylebau contractau a bydd hynny'n cynnwys gofynion iaith sy'n ymwneud ag unrhyw agweddau penodol ar wasanaethau cyhoeddus y byddant yn eu darparu ar ein rhan.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
77	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	Bydd pob Hysbysiad Contract i dendro ar gyfer cytundeb yn nodi y croesewir tendrau naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni yr un fath ar gyfer y ddwy iaith.	30/3/2016
77A	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau).	Bydd yr amserlen ar gyfer ymdrin â cheisiadau yr un fath ar gyfer ceisiadau a ddaw i law yn y Gymraeg a'r Saesneg.	30/3/2016
79	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Ymdrinnir â thendrau a ddaw i law yn Gymraeg yn Gymraeg gan gynnwys, os oes angen, yr angen i gyfweld â'r sawl sy'n cyflwyno'r tendr. Byddwn yn anelu at ddarparu siaradwr Cymraeg rhugl ar gyfer y cyfweliad neu wasanaeth cyfieithu ar y pryd.	30/3/2016
80	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	Ymdrinnir â thendrau a ddaw i law yn Gymraeg yn Gymraeg gan gynnwys unrhyw benderfyniad a wneir mewn perthynas â'r tendr.	30/3/2016
81	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	Bydd unrhyw hysbysebion sy'n hyrwyddo ein gwasanaethau'n cael eu darparu naill ai'n ddwyieithog neu ar wahân yn Gymraeg a Saesneg.	30/3/2016
82	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	Bydd yr holl gyhoeddusrwydd neu ddogfennau a gynhyrchwn a'r gwasanaethau hysbysebu a ddarparwn yn cael eu darparu'n ddwyieithog ac, os byddant yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, byddant ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
83	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae gennym hunaniaeth a delwedd gyhoeddus gorfforaethol ddwyieithog. Bydd ein henw, manylion cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar ddeunyddiau sy'n arddangos ein hunaniaeth gorfforaethol.	30/3/2016
84	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.	Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnig cwrs addysg ar hyn o bryd.	30/3/2016
85	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, ac sydd wedi ei anelu'n benodol at bersonau sy'n 18 oed neu'n iau, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.	Nid yw Gyrfa Cymru yn cynnig cwrs addysg ar hyn o bryd.	30/3/2016
87	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	Bydd unrhyw gyhoeddiad a wneir dros system annerch gyhoeddus yn cael ei wneud yn ddwyieithog gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf ac yna'r neges Saesneg.	30/3/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
94	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Wrth wneud penderfyniad polisi newydd neu ddiwygio un presennol, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i asesu'r effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y byddai'n ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. • Cael dim effaith niweidiol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018
95	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Wrth wneud penderfyniad polisi newydd neu ddiwygio un presennol, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i asesu sut y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effaith gadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
96	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Wrth wneud penderfyniad polisi newydd neu ddiwygio un presennol, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cynnwys ystyriaethau ynghylch y Gymraeg, i asesu sut na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau niweidiol, neu effeithiau llai niweidiol, ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael dim effaith niweidiol neu effeithiau llai niweidiol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018
97	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn ceisio barn am yr effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael dim effaith niweidiol neu effeithiau llai niweidiol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
98	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn ceisio barn am yr effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018
99	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn ceisio barn am yr effeithiau niweidiol neu effeithiau llai niweidiol y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael dim effaith niweidiol neu effeithiau llai niweidiol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
101	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd unrhyw ymchwil a gomisiynir gennym i gynorthwyo wrth wneud unrhyw benderfyniad polisi yn cael ei gynnal yn unol â Safonau'r Gymraeg a bydd yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Cael dim effaith niweidiol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018
102	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd unrhyw ymchwil a gomisiynir gennym i gynorthwyo wrth wneud unrhyw benderfyniad polisi yn cael ei gynnal yn unol â Safonau'r Gymraeg a bydd yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018
103	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd unrhyw ymchwil a gomisiynir gennym i gynorthwyo wrth wneud unrhyw benderfyniad polisi yn cael ei gynnal yn unol â Safonau'r Gymraeg a bydd yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael dim effaith niweidiol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
105	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.	Byddwn yn gweithredu polisi iaith mewnol i annog y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol gan gynyddu'r cyfle i'n staff weithio'n ddwyieithog.	1/4/2018
106	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.	Mae ein holl wybodaeth recriwtio ar gael yn y ddwy iaith, a gofynnir i bob ymgeisydd am eu dewis iaith. Bydd unrhyw ohebiaeth yn cael ei hanfon yn Gymraeg at y rheini sydd wedi nodi mai eu dewis iaith yw'r Gymraeg.	1/4/2018
107	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi— (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.	Gofynnwyd i'r holl staff presennol beth yw eu dewis iaith ar gyfer derbyn gohebiaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth. Byddwn yn gofyn i'r holl staff newydd yn syth ar ôl iddynt gael eu penodi. Pan fydd eu dewis iaith yn hysbys, bydd hyn yn cael ei nodi ar gyfer y dyfodol ac, o hynny ymlaen, bydd unrhyw ohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio atynt yn bersonol yn cael ei hanfon yn newis iaith yr unigolyn.	1/4/2018
108	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau atodedig ar yr anghenion a gofynion hyfforddi (cynlluniau perfformiad a datblygiad) ar gael i'r staff yn Gymraeg a Saesneg ac maent wedi'u cyhoeddi ar ein mewnrwyd.	1/4/2018
109	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau atodedig sy'n amlinellu'r amcanion perfformiad (cynlluniau perfformiad a datblygiad) ar gael i'r staff yn Gymraeg a Saesneg ac maent wedi'u cyhoeddi ar ein mewnrwyd.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
110	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau atodedig ar yr anghenion a gofynion hyfforddi (cynlluniau perfformiad a datblygiad) ar gael i'r staff yn Gymraeg a Saesneg ac maent wedi'u cyhoeddi ar ein mewnrwyd.	1/4/2018
111	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi— (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae'r rhyngwyneb ar ein system AD mewnol ar gyfer cofnodi gwyliau blynyddol ar gael yn Saesneg. Bydd unrhyw staff sy'n dymuno dilyn y broses ar gyfer gwyliau blynyddol ac absenoldeb yn Gymraeg yn cael fersiwn bapur o'r dogfennau. Mae'r system ar gyfer cofnodi oriau hyblyg yn cael ei phrynu o'r tu allan a dim ond yn Saesneg y mae ar gael ar hyn o bryd. Byddwn yn cyfieithu'r rhyngwyneb fel y bo'n berthnasol.	1/4/2018
112	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ymddygiad yn y gweithle ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar y fewnrwyd.	1/4/2018
113	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud â llesiant yn y gwaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar y rhyngrwyd	1/4/2018
114	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyflogau neu fuddion yn y gweithle ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar y fewnrwyd.	1/4/2018
115	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisi a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli perfformiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar ein mewnrwyd.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
116	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisi a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud ag absenoldeb o'r gwaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar y fewnrwyd.	1/4/2018
117	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud ag amodau gwaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar y fewnrwyd.	1/4/2018
118	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud â phatrymau gwaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar y fewnrwyd.	1/4/2018
119	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff— (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	Mae croeso i'r staff wneud cwynion yn eu dewis iaith, a byddwn yn ymateb yn yr un iaith.	1/4/2018
119A	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff— (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	Mae ein polisi a'n gweithdrefnau cwyno ar gyfer staff yn nodi bod croeso i'r staff wneud cwynion yn eu dewis iaith, a byddwn yn ymateb yn yr un iaith.	1/4/2018
121	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi— (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Os gwneir cwyn, byddwn yn gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod. Bydd unrhyw gyfarfod a gynhelir yn cael ei gynnal yn newis iaith yr aelod o staff, naill ai gan siaradwr Cymraeg rhugl neu gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chwynion wedi'u cyhoeddi ar y fewnrwyd ac maent ar gael i'r holl staff.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
122	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff— (a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.	Pan fydd aelod o staff yn gwneud cwyn yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg ac yn sicrhau bod yr holl ohebiaeth a'r cyfarfodydd dilynol yn cael eu cynnal yn Gymraeg os dymunir hynny.	1/4/2018
123	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.	Gall staff ymateb i gyhuddiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblu fewnol yn eu dewis iaith.	1/4/2018
123A	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi— (a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.	Mae ein polisi disgyblu'n nodi bod croeso i'r staff ymateb i gyhuddiadau a wneir yn eu herbyn yn eu dewis iaith.	1/4/2018
125	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi— (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Cynigir opsiynau o ran iaith i'r staff mewn unrhyw gyfarfod ynghylch materion disgyblu sy'n ymwneud â'u hymddygiad. Mewn cyfarfodydd gydag unigolion lle mae'r staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, byddwn yn anelu i sicrhau bod siaradwr Cymraeg addas yn cynnal y cyfarfod neu byddwn yn trefnu i wasanaeth cyfieithu ar y pryd gael ei ddarparu.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
126	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff— (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.	Bydd staff yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw benderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu yn eu dewis iaith.	1/4/2018
127	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	Gellir darparu rhyngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar gyfrifiaduron yr holl staff ar gais i'n hadran TG. Mae meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg a geiriadur Cymraeg *Cysgliad/Cysill* ar gael i'r holl staff sy'n gweithio'n rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.	1/4/2018
128	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.	Mae ein tudalennau ar y fewnrwyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg a gall staff newid rhwng un iaith a'r llall.	1/4/2018
131	Safonau Gweithredu	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	Mae ein mewnrwyd yn darparu dewis uniongyrchol o'r Gymraeg neu Saesneg ar bob tudalen.	1/4/2018
132	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.	Mae ein mewnrwyd yn cynnwys adran benodol ar gyfer y Gymraeg, lle y gall y staff gael mynediad at y polisi, canllawiau staff ac adnoddau defnyddiol.	1/4/2018
133	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.	Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar dudalennau'r fewnrwyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	1/4/2018
134	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	Gofynnir i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a'u cofnodi ar ein system rheoli talent ganolog.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
135	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg— (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.	Cynigir unrhyw hyfforddiant a ddarperir i staff ar y canlynol yn Gymraeg a Saesneg: (a) recriwtio a chyfweld (b) rheoli perfformiad (c) cwynion a gweithdrefnau disgyblu (ch) cynefino (d) ymdrin â'r cyhoedd (dd) iechyd a diogelwch.	1/4/2018
136	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn— (a) cyfarfodydd; (b) cyfweliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.	Cynigir hyfforddiant yn Gymraeg i staff ar (a) cyfarfodydd (b) cyfweliadau (c) cwynion a gweithdrefnau disgyblu.	1/4/2018
137	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant i staff sy'n darparu cyngor gyrfaoedd ar werth sgiliau yn y Gymraeg yn y sector cyflogaeth.	Cynigir hyfforddiant i staff sy'n darparu cyngor gyrfa ar werth sgiliau Cymraeg yn y sector addysg.	1/4/2018
138	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith— (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.	Mae gennym raglen hyfforddi yn y Gymraeg ar waith sy'n rhoi cyfle i'n holl staff ddysgu Cymraeg at ddibenion gwaith yn ystod oriau gwaith. Mae'n ofynnol bod pob aelod newydd o staff a'r holl staff presennol heb unrhyw sgiliau Cymraeg yn mynychu cwrs byr er mwyn gallu ynganu enwau lleoedd, enwau personol a chyfarchion sylfaenol yn Gymraeg. Anogir yr holl staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith. Bydd y staff y mae'n ofynnol iddynt ddysgu Cymraeg fel amod o'u cyflogaeth yn dilyn rhaglen hyfforddiant iaith y cytunwyd arni.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
139	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.	Mae ein Rhaglen Hyfforddiant yn y Gymraeg yn rhoi cyfle i'r holl staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod oriau gwaith.	1/4/2018
140	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu— (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru); (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.	Byddwn yn gofyn i'r holl staff newydd a'r staff presennol heb sgiliau Cymraeg fynychu cwrs byr sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant Cymru. Bydd unrhyw gyrsiau cynefino a gynhaliwn yn cynnwys hyfforddiant ar Safonau'r Gymraeg a'r polisi iaith mewnol.	1/4/2018
141	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	Mae ein proses gynefino yn cynnwys rhestr wirio i atgoffa Rheolwyr Llinell i drafod gofynion Safonau'r Gymraeg, unrhyw ofynion hyfforddi yn y Gymraeg a gofyn i'r cyflogeion newydd hunanasesu a chofnodi eu sgiliau Cymraeg ar y system ganolog.	1/4/2018
142	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	Bydd ein siaradwyr Cymraeg naill ai'n defnyddio'r logo Iaith Gwaith neu'n cynnwys 'Siaradwr Cymraeg/Dysgwr Cymraeg' i nodi eu bod naill ai'n siarad Cymraeg neu'n dysgu'r iaith.	1/4/2018
143	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.	Bydd holl lofnodion e-bost y staff, gan gynnwys teitlau swyddi a manylion cyswllt, yn ddwyieithog. Byddwn yn darparu geiriad dwyieithog i staff ddefnyddio mewn negeseuon allan o'r swyddfa.	1/4/2018
144	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi roi ar gael i aelodau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy'n cyfleu hynny.	Byddwn yn darparu bathodyn i'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg iddynt ei wisgo i gyfleu hynny.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
144A	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi hybu ymhlith aelodau'r staff wisgo bathodyn sy'n cyfleu bod aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg.	Byddwn yn hyrwyddo pwysigrwydd gwisgo bathodyn i gyfleu bod aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg.	1/4/2018
145	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	Bydd y sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag o fewn y sefydliad yn cael eu hasesu i gychwyn gan Bennaeth yr adran berthnasol a'r adran AD gan ddefnyddio ein canllawiau ar ein strategaeth sgiliau dwyieithog a'n strategaeth recriwtio, gan gofio gofynion y swydd o dan sylw a'r capasiti o siaradwyr Cymraeg o fewn y tîm. Bydd y lefel sgiliau a'r gofynion ieithyddol yn y Gymraeg yn cael eu nodi'n glir yn y datganiad ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag. Ar gyfer pob swydd o fewn y sefydliad, mae'r gallu i ddatgan enwau lleoedd Cymraeg ac enwau personol a'r gallu i ddeall a defnyddio ymadroddion sylfaenol Cymraeg yn ofyniad hanfodol i sicrhau cwrteisi ieithyddol sylfaenol. Ar gyfer rhai swyddi newydd neu swyddi gwag a hysbysebir efallai y bydd modd i ddeiliaid swyddi ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyrraedd y safon ofynnol ar gyfer y swydd dros gyfnod o amser yn dilyn cynllun hyfforddi wedi ei gytuno gyda chefnogaeth lawn gan CCDG.	1/4/2018
145A	Safonau Gweithredu	Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi— (a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.	Bydd y lefel sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer yr holl swyddi newydd neu wag yn cael ei nodi yn yr hysbyseb yn Gymraeg a Saesneg.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
146	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg	Mae'r hysbysebion a'r ffurflenni cais sy'n ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae croeso i ymgeiswyr wneud cais yn eu dewis iaith, ac ymdrinnir â cheisiadau a ddaw i law yn Gymraeg a Saesneg o fewn yr un amserlen.	1/4/2018
146A	Safonau Gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi— (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi; (c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.	Mae ein holl bolisïau, gweithdrefnau, hysbysebion a ffurflenni cais sy'n ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	1/4/2018
146B	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).	Ymdrinnir â cheisiadau a ddaw i law yn Gymraeg a Saesneg o fewn yr un amserlen.	1/4/2018
148	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi— (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).	Ceir lle ar y ffurflenni cais lle y gall unigolion nodi eu dewis iaith ar gyfer cyfweliad neu unrhyw ddull arall o asesu.	1/4/2018
149	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.	Byddwn yn gohebu gydag ymgeiswyr yn eu dewis iaith.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
150	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Bydd ein holl arwyddion parhaol a thros dro, ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurdeb ac amlygrwydd. O fewn adeiladau GC, bydd ein holl hysbysiadau swyddogol a roddir ar waliau a hysbysfyrddau yn ddwyieithog.	1/4/2018
151	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Bydd ein holl arwyddion parhaol a thros dro, ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd y testun Cymraeg uwchben y Saesneg neu i'r chwith iddi.	1/4/2018
152	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Bydd yr holl destun ar arwyddion a arddangosir o fewn ein gweithleoedd yn cael ei brawfddarllen gan ein gwasanaeth cyfieithu neu gan siaradwr Cymraeg rhugl dynodedig i sicrhau cywirdeb o ran ystyr a mynegiant.	1/4/2018
153	Safonau Gweithredu	Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	Bydd unrhyw gyhoeddiadau sain a wneir yn ein swyddfeydd yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Un eithriad i hyn fyddai argyfwng sy'n rhoi bywydau yn y fantol pan fydd y negeseuon yn Saesneg yn unig, o bosibl.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
154	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	Cedwir cofnodion o'r holl gwynion a dderbynnir sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan y sefydliad ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r cofnod yn cynnwys natur y gŵyn a pha gam(au) a gymerwyd i ymateb iddi.	1/4/2018
155	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Cedwir y cofnodion a'r copïau ysgrifenedig o'r cwynion a ddaw i law sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn ganolog gan yr adran Ansawdd a Chynllunio.	1/4/2018
156	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	Cedwir yr holl gwynion ysgrifenedig a ddaw i law sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ganolog gan yr adran Ansawdd a Chynllunio.	1/4/2018
157	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Wrth wneud penderfyniadau polisi, byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i asesu'r effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y byddent yn eu cael ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad: • Gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg • Cael dim effaith niweidiol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
158	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 134), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	Gofynnir i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a gwneud cofnod ohonynt ar ein system rheoli talent ganolog, sy'n caniatáu i'r sefydliad lunio adroddiadau ar sgiliau Cymraeg ein gweithlu.	1/4/2018
159	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o— (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 135), a (b) os darparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 135, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.	Bydd cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar: (a) nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd yn Gymraeg; (b) canran y staff a fynychodd gyrsiau a ddarparwyd yn Gymraeg.	1/4/2018
161	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 145) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	Cedwir cofnodion o'r holl asesiadau a gynhaliwyd i nodi'r lefel yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan ein hadran AD gan gynnwys gallu ieithyddol yr ymgeisydd llwyddiannus.	1/4/2018
162	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 145) fel swyddi sy'n gofyn— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	Bydd cofnod o'r lefel sgiliau yn y Gymraeg a'r gofyniad ieithyddol ar gyfer pob swydd newydd neu wag yn cael eu cadw gan ein hadran AD ar gyfer pob blwyddyn ariannol.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
169	Atodol – Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Bydd ein Polisi ar Safonau'r Gymraeg yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd yn nodi sut mae ein sefydliad yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau gan gynnwys Safonau Llunio Polisïau y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw. Mae'r polisi ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd ar gais.	1/4/2018
170	Atodol – Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae gennym bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith a gyhoeddir ar ein gwefan ar gyfer yr holl gwynion a ddaw i law. Mae copi o'r polisi a'r weithdrefn ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd ar gais.	1/4/2018
171	Atodol - Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Wrth wneud penderfyniadau polisi, byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i asesu'r effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y byddent yn eu cael ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae ein polisi a gweithdrefnau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ac mae copi ar gael ar gais gan bob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
172	Atodol - Safonau Llunio Polisi	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Yn flynyddol, byddwn yn cynhyrchu a chyflwyno Adroddiad Blynyddol, a fydd yn cynnwys sut mae ein sefydliad wedi cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi o fewn yr amserlen sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg ac yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad ar ein gwefan a bydd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd ar gais.	1/4/2018
173	Atodol - Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Mae gennym Bolisi ar Safonau'r Gymraeg sy'n egluro sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â'r holl Safonau gan gynnwys y safonau llunio polisi.	1/4/2018
174	Atodol - Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd inni ar 29 Medi 2017 ar gais.	1/4/2018
175	Atodol - Safonau gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae ein polisi ar Safonau'r Gymraeg yn cofnodi sut y bydd ein sefydliad yn cydymffurfio â'r holl safonau gan gynnwys y Safonau Gweithredol y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. Cyhoeddir y polisi hwn ar ein gwefan ac mae ar gael yn ein holl swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd ar gais.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
176	Atodol - Safonau gweithredu	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd.	Mae gennym bolisi a gweithdrefn ar waith sy'n egluro sut y byddwn yn ymdrin â'r holl gwynion y mae'r sefydliad yn eu cael. Cyhoeddir y polisi a'r gweithdrefnau ar ein gwefan ac maent ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais.	1/4/2018
177	Atodol - Safonau gweithredu	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer— (i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd.	Bydd ein sefydliad yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
178	Atodol - Safonau gweithredu	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)— (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 158); (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159); (c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159); (ch) nifer yr aelodau o staff sy'n gwisgo bathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 160); (d) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn— (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd, (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 162); (dd) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Yn flynyddol, byddwn yn cynhyrchu a chyflwyno Adroddiad Blynyddol yn Gymraeg a Saesneg ynghylch ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ac yn cynnwys y wybodaeth y gwnaed cais amdani fel yr amlinellir yn Safon 164. Bydd gweithrediad y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i addasu yn ôl y galw.	1/4/2018

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CCDG yn bwriadu cydymffurfio â'r safon	Diwrnod Gosod
179	Atodol - Safonau gweithredu	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Mae ein polisi ar Safonau'r Gymraeg yn cofnodi sut y bydd ein sefydliad yn cydymffurfio â'r holl safonau y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw gan gynnwys y Safonau Gweithredol. Cyhoeddir y polisi hwn ar ein gwefan.	1/4/2018
180	Atodol - Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r safonau gweithredol y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd inni ar 29 Medi 2017 ar gais.	1/4/2018
181	Atodol - Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae ein polisi ar Safonau'r Gymraeg yn cofnodi sut bydd ein sefydliad yn cydymffurfio â'r holl safonau y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw gan gynnwys y Safonau Cadw Cofnodion. Cyhoeddir y polisi hwn ar ein gwefan ac mae ar gael ar gais yn ein swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	1/4/2018
182	Atodol - Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r safonau cadw cofnodion y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd inni ar 29 Medi 2017 ar gais.	1/4/2018